Y Comisiwn Etholiadol

Trosolwg – Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

Trosolwg o roddion i ymgeiswyr

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid sydd eisiau deall y rheolau ar roddion yn y cyfnod cyn etholiadau yn y Deyrnas Unedig.

Cynnwys:

Beth sy'n cyfrif fel rhodd

Pryd y gallwch dderbyn rhoddion

Pennu gwerth rhoddion

Cofnodi rhoddion

Adrodd ar roddion

Termau ac ymadroddion a ddefnyddir gennym

Rydym yn defnyddio ‘rhaid’ pan fyddwn yn cyfeirio at ofyn cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio ‘dylech’ ar gyfer eitemau yr ydym yn ystyried eu bod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes raid i chi ddilyn y cyfarwyddyd hwn, ond os gwnewch hynny, byddwch, fel arfer, yn gwneud digon i gydymffurfio â’r gyfraith.

Ein hymagwedd at orfodi

Os na fyddwch yn cydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol fe allwch chi a’ch sefydliad fod yn ddarostyngedig i gosbau sifil neu droseddol. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ymagwedd y Comisiwn at orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

Trosolwg o roddion i ymgeiswyr

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon:

Ymgeiswyr ac asiantiaid sydd eisiau deall y rheolau ar roddion yn y cyfnod cyn etholiadau yn y Deyrnas Unedig.

Mae'n trafod:

- Beth sy'n cyfrif fel rhodd
- Pryd y gallwch dderbyn rhoddion
- Pennu gwerth rhoddion
- Cofnodi rhoddion
- Adrodd ar roddion

Dogfennau cysylltiedig:

- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau - Gwiriadau a yw rhoddwyr yn ganiataol i ymgeiswyr

Papurau arbenigol:

- Nawdd

2

Crynodeb

Mae rhoddion i ymgeiswyr mewn etholiadau wedi'u rheoleiddio gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu ddeddfwriaeth debyg.

Golyga hyn pan fyddwch yn derbyn rhodd, fod yn rhaid i chi wirio y gallwch ei derbyn, ei chofnodi a rhoi adroddiad arni yn eich ffurflen wariant.

Mae'r trosolwg hwn yn esbonio'r rheolau, ac yn dweud ble dylech droi i gael rhagor o wybodaeth.

Cyflwyniad

Dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu ddeddfwriaeth gyfatebol, rhaid i ymgeiswyr ac asiantiaid ddilyn rheolau penodol ar sut maent yn ymgyrchu, faint y gallant wario a gan bwy y gallant dderbyn rhoddion wrth baratoi ar gyfer etholiadau.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r rheolau o ran gan bwy all yr ymgeiswyr dderbyn rhoddion, pa wybodaeth sydd yn rhaid iddynt ei chofnodi a sut i adrodd am roddion wedi'r etholiad.

Dylech ddarllen y cyfarwyddyd hwn ynghyd â gweddill ein cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid. Gallwch ddod o hyd i ganllawiau penodol ar gyfer yr etholiad yr ydych yn sefyll ynddo yn ein tudalen ganllaw ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid.

Cronfeydd ymladd partïon lleol

Mae nifer o bleidiau gwleidyddol yn rhedeg cronfeydd ymladd lleol i'w hymgeiswyr. Os rheolir y gronfa gan y blaid ac nid gan yr ymgeisydd, mae rhoddion i'r gronfa fel arfer yn cael eu trin fel rhai a wneir i'r blaid ac nid oes angen i chi eu trin fel rhoddion i'r ymgeisydd. Fodd bynnag, bydd angen i chi adrodd ar roddion gan y blaid leol a wneir i'ch ymgyrch yn ystod y cyfnod rheoledig.

4

Pwy sy'n gyfrifol am roddion?

Gall yr ymgeisydd a'r asiant etholiad dderbyn rhoddion tuag at wariant ymgeisydd, ond unwaith y penodir asiant etholiad, rhaid trosglwyddo rhoddion ymlaen atynt cyn gynted â phosibl.

Rhaid i'r asiant etholiad, yn hytrach na'r ymgeisydd, wirio fod rhoddion o fewn y rheolau cyn eu derbyn.

Rydym yn defnyddio '**chi**' i sôn am y sawl sy'n gyfrifol am wirio rhoddion. Yr ymgeisydd fydd hyn oni bai y penodir asiant etholiad. Os penodir asiant, nhw sy'n gyfrifol am wirio rhoddion.

Fodd bynnag, rhaid i'r ymgeisydd a'r asiant lofnodi datganiad ar eu ffurflen treuliau i ddweud bod y cofnod yn gyflawn a chywir hyd eithaf eu gwybodaeth.

Beth yw rhodd?

Mae rhodd yn arian, nwyddau neu wasanaeth a roddir:

- i'r diben o dalu costau etholiad
- heb dâl neu ar delerau anfasnachol

ac sydd â gwerth dros £50.

Mae rhai enghreifftiau o roddion yn cynnwys:

- rhodd o arian neu eiddo arall
- talu anfoneb am gostau etholiad fyddai fel arall yn cael ei dalu gennych chi
- benthyciad nad yw ar delerau masnachol
- nawdd i ddigwyddiad neu gyhoeddiad
- defnydd am ddim, neu gydag gostyngiad, o swyddfa

Dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl, **nid** yw unrhyw beth sydd â gwerth o £50 neu lai yn rodd.

Cewch ragor o wybodaeth am nawdd yn Papur arbenigol: Nawdd.

Pa fath o roddion sydd wedi eu cynnwys yn y rheolau?

Mae'r rheolau yn ymwneud â phob rhodd tuag at gostau etholiad. Mae hyn yn cynnwys rhoddion tuag at y costau etholiad hynny a dderbyniwch cyn i chi fod yn ymgeisydd.

Nid yw'r rheolau yn cynnwys rhoddion a dderbyniwch tuag at bethau nad ydynt yn gostau etholiadol. Er enghraifft, amser a wirfoddolwyd neu eitemau a ddefnyddiwyd cyn i'r cyfnod rheoledig gychwyn. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gostau etholiadol a'r cyfnod rheoledig ar ein tudalen ganllaw ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid.

Gan bwy gewch chi dderbyn rhodd?

Dim ond gan roddwyr a ganiateir y gallwch dderbyn rhoddion.

Mae rhoddwr a ganiateir yn:

- Unigolyn sydd wedi cofrestru ar gofrestr etholiadol yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys etholwyr sydd dramor
- Plaid wleidyddol wedi cofrestru ym Mhrydain Fawr
- Plaid wleidyddol wedi cofrestru yng Ngogledd Iwerddon (dim ond os ydych yn sefyll etholiad yng Ngogledd Iwerddon)
- Y rhan fwyaf o gwmnïau sydd wedi cofrestru yn y DU
- Undeb llafur sydd wedi cofrestru yn y DU
- Cymdeithas adeiladu sydd wedi cofrestru yn y DU
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnal ei busnes yn y Deyrnas Unedig
- Cymdeithas gyfeillgar a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig
- Cymdeithas anghorfforedig o'r Deyrnas Unedig sy'n cynnal busnes neu weithgareddau yn y Deyrnas Unedig

Gallwch hefyd dderbyn rhoddion oddi wrth rhai mathau o ymddiriedolaethau ac o gymynroddion. Mae'r rheolau ar y rhoddion hyn yn gymhleth, felly os gwelwch yn dda cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.

Pwysig

Am ragor o wybodaeth ar sut i wirio caniatâd, gweler y ddogfen hon:

- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Gwiriadau a yw rhoddwyr yn ganiataol i ymgeiswyr

Er y gallwch dderbyn rhoddion gan elusennau sy'n gwmnïau cofrestredig yn gyfreithiol, nid yw elusennau fel rheol yn cael rhoi rhoddion gwleidyddol o dan y gyfraith elusennau. Dylech wirio bod unrhyw elusen sy'n cynnig rhodd i chi wedi cymryd cyngor gan y Comisiwn Elusennau cyn i chi ei derbyn.

6

Sut allwch chi benderfynu os allwch chi dderbyn rhodd?

Pan fyddwch yn derbyn rhodd o fwy na £50, rhaid i chi sicrhau ar unwaith eich bod yn gwybod pwy yw'r rhoddwr **a** bod y rhodd wedi dod o ffynhonnell a ganiateir. Os yw rhywun wedi trosglwyddo rhodd ymlaen ar ran rhywun arall, rhaid i chi drin hyn fel rhodd o'r ffynhonnell wreiddiol, ac nid gan yr unigolyn sy'n ei throsglwyddo ymlaen.

Mae gennych 30 niwrnod i wirio'r ffynhonnell a phenderfynu a allwch dderbyn y rhodd.

Os nad yw rhodd gan roddwr a ganiateir, neu na allwch fod yn sicr o wir ffynhonnell y rhodd am unrhyw reswm, rhaid i chi ei dychwelyd o fewn y cyfnod 30 niwrnod hwn.

Os na ddychwelir y rhodd, fe bennir eich bod wedi ei derbyn, ac fe allwn wneud cais i'r llys i'w fforffedu i ni.

Pryd fyddwch chi'n 'derbyn' rhodd?

Byddwch fel arfer yn 'derbyn' rhodd ar y diwrnod pan fyddwch yn dod yn berchen arni.

Er enghraifft:

- Os rhoddir taflenni am ddim i chi, byddwch yn derbyn y rhodd pan fydd y taflenni yn cael eu rhoi i chi.
- Os rhoddir siec i chi, rydych yn derbyn y rhodd ar y dyddiad pan fydd y siec yn clirio.
- Os trosglwyddir rhodd yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc, rydych yn derbyn y rhodd ar y dyddiad pan fyddwch yn gwirio'ch cofnod banc ar-lein neu'n cael eich hysbysu eich bod wedi ei derbyn gan eich banc.

Sut allwch chi ddychwelyd rhodd?

Os gwyddoch pwy yw'r rhoddwr, rhaid i chi ei dychwelyd iddynt.

Os yw'r rhodd gan ffynhonnell anhysbys (er enghraifft, rhodd dienw o £100 mewn arian parod), rhaid i chi ei dychwelyd at:

- Y sawl a drosglwyddodd y rhodd i chi; neu
- Y sefydliad ariannol a ddefnyddiwyd i drosglwyddo'r rhodd.

Os na allwch ddod o hyd i'r naill na'r llall, rhaid i chi anfon y rhodd atom ni. Byddwn yn ei thalu i mewn i gronfa gyfunol y Llywodraeth.

Sut allwch chi bennu gwerth rhodd?

Rhaid i chi osod gwerth ar unrhyw rodd nad yw'n arian. Gwerth rhodd yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth yr hyn a dderbyniwch a'r swm (os o gwbl) a dalwch amdano.

Os rhoddir eiddo, nwyddau neu wasanaethau i chi am ddim, neu am ostyngiad anfasnachol, rhaid i chi bennu eu gwerth ar bris y farchnad.

Er enghraifft:

Pris y farchnad am nwyddau	-	Pris a delir gennych chi	=	Gwerth y rhodd
£200	-	£100	=	£100

Neu:

Pris y farchnad am wasanaethau	-	Pris a delir gennych chi	=	Gwerth y rhodd
£150	-	£0	=	£150

Os yw'r roddwr yn ddarparwr masnachol, dylech ddefnyddio'r prisiau maent yn godi ar gwsmeriaid eraill tebyg. Os nad yw'r wybodaeth yma ar gael, dylech ganfod beth mae darparwyr tebyg yn godi am yr un eiddo, nwyddau neu wasanaethau a defnyddio hyn fel pris y farchnad.

Os ydych yn dal yn ansicr sut i bennu gwerth rhodd benodol, rhowch alwad i ni neu anfon e-bost i ofyn am gyngor.

Dylech gadw cofnod o sut y gwnaethoch bennu'r gwerth.

Gostyngiadau masnachol yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid eraill tebyg, megis gostyngiadau am archebion swmp neu ostyngiadau tymhorol. **Mae gostyngiadau anfasnachol** yn ostyngiadau arbennig a roddir i chi, yn benodol, gan gyflenwyr.

8

Rhoi gwerth ar rodd trwy nawdd

Os bydd rhywun yn noddi cyhoeddiad neu ddigwyddiad ar ran yr ymgeisydd, gwerth y rhodd yw'r swm llawn maent yn dalu.

Ni ddylech dynnu unrhyw werth ar gyfer budd maent yn dderbyn o'r nawdd.

Am ragor o wybodaeth gweler y ddogfen hon:

- Papur arbenigol: Nawdd

Pennu gwerth mathau eraill o roddion

Ceir rhagor o wybodaeth am bennu gwerth gofod swyddfa a staff ar secondiad yn Papur arbenigol: Rhannu gwariant.

Os ydych yn dal yn ansicr sut i bennu gwerth rhodd, rhowch alwad i ni neu anfon e-bost i ofyn am gyngor.

Pa gofnodion sydd raid i chi gadw?

Rhoddion yr ydych wedi eu derbyn

Os byddwch yn derbyn rhodd dros £50, rhaid i chi gofnodi'r manylion hyn:

- Enw a chyfeiriad y rhoddwr
- Os yw'r rhoddwr yn gwmni, rhif cofrestru'r cwmni
- Swm neu natur a gwerth y rhodd
- Y dyddiad y cafwyd y rhodd
- Y dyddiad y derbyniwyd y rhodd

Rhaid i chi gofnodi cyfeiriad y rhoddwr fel y mae ar y gofrestr statudol berthnasol. Os yw'r rhoddwr yn etholwr sy'n byw dramor, rhaid i chi gofnodi cyfeiriad eu cartref. Mae hyn am na fydd cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol.

Os yw'r rhoddwr yn gymdeithas anghorfforedig, rhaid i chi gofnodi cyfeiriad y brif swyddfa. Mae hyn oherwydd nad oes cofrestr o gymdeithasau anghorfforedig i gyfeirio ato.

Am ragor o wybodaeth ar pa gofrestrau mae angen i chi wirio, gweler y ddogfen hon:

- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Gwiriadau a yw rhoddwyr yn ganiataol i ymgeiswyr

Rhoddion yr ydych wedi eu dychwelyd

Os byddwch yn cael rhodd gan ffynhonnell na chaniateir, rhaid i'r asiant etholiad ei dychwelyd a chofnodi'r manylion hyn:

- Swm neu natur y rhodd a'i gwerth
- Y dyddiad y cyrhaeddodd y rhodd
- Y dyddiad y dychweloch y rhodd
- Pa gamau a gymerwyd gennych i ddychwelyd y rhodd (er enghraifft, yr unigolyn neu sefydliad y dychweloch y rhodd atynt)

10

Adrodd wedi etholiad

Rhaid i chi adrodd ar eich gwariant a rhoddion i'r Swyddog Canlyniadau priodol wedi'r etholiad.

Rhaid i'r asiant etholiad gwblhau'r cofnod gwariant a chynnwys manylion pob rhodd dros £50 a rhoddion nas caniateir.

Rhaid i'r ymgeisydd a'r asiant etholiad hefyd lofnodi datganiadau bod y cofnod yn gyflawn a chywir hyd eithaf eu gwybodaeth a chred.

Rydym yn cynhyrchu ffurflenni y gallwch ddefnyddio i adrodd ar eich gwariant a datganiadau. Gallwch ddod o hyd i'r ffurflenni perthnasol ar gyfer etholiad penodol ar ein tudalen gyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid. Maent yn delio â'r holl wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chynnwys.

Am ragor o wybodaeth am wariant a ffurflenni treuliau, gweler ein tudalen ganllaw i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Sut gallwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfennau cyfarwyddyd yr ydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein dewis llawn o gyfarwyddyd ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw hynny'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 028 9089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i'n gwefan yn www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein cyfarwyddyd – anfonwch e-bost atom yn: pef@electoralcommission.org.uk

12

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk